

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Adran Daearyddiaeth
a Gwyddorau Daear

Astudiaethau israddedig mewn

# Cymdeithaseg

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Ein cyrsiau | t.2 |
| Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg | t.18 |
| Cyflogadwyedd | t.19 |
| Ymchwil | t.20 |
| Cyfleoedd byd-eang | t.23 |
| Y broses ymgeisio | t.24 |


**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Hydref 2024), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.





# Croeso

Mae'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ymhlith y mwyaf profiadol o'i math yn y DU, yn arbenigo mewn ystod eang o themâu ar draws y gwyddorau naturiol, ffisegol a chymdeithasol. Roedd Cymdeithaseg yn cael ei ddysgu yn Aberystwyth o ddiwedd y 1960au tan ddiwedd y 1980au, gan academyddion enwog am eu gwaith arloesol ym maes ethnograffeg cefn gwlad. Mae'r rhaglen Cymdeithaseg yn adeiladu ar sylfaen y gwaith hwnnw, yn craffu ar y mannau lle y mae oedran, anabledd, dosbarth, rhywedd/rhywioldeb ac ethnigrwydd yn dod ynghyd, o safbwynt materion cyfoes allweddol ynghylch ansadrwydd (e.e. yr argyfwng gofal iechyd, mewnfudo, y wladwriaeth les neu argyfwng yr hinsawdd) lle y gellir rhoi damcaniaeth gymdeithasegol ar waith mewn modd a fydd yn cael arwyddocâd i'r byd go iawn. Mae'r themâu hyn yn manteisio ar arbenigedd y tîm cymdeithaseg, gan fod dysgu sy'n cael ei yrru gan ymchwil yn hanfodol bwysig wrth ddarparu addysg o safon i fyfyrwyr.

Mae modd dewis cwrs Cymdeithaseg sy'n cynnwys blwyddyn mewn diwydiant neu flwyddyn yn astudio dramor fel y gallwch gael y gorau o'ch amser yn y brifysgol, gan eich rhoi chi, ar yr un pryd, ar ben y ffordd i'ch paratoi at y farchnad swyddi gystadleuol ar ôl i chi raddio. Bydd ein cwrs blwyddyn sylfaen yn rhoi i chi sylfaen gadarn o'r sgiliau hanfodol y bydd eu hangen arnoch i gwblhau'n llwyddiannus eich dewis lwybr tuag at raddio.

Mae ein staff yn angerddol am yr hyn maen nhw'n ei wneud. Ymchwilwyr a darlithwyr ymroddedig ydyn nhw, ac mae llawer ohonynt ar flaen y gad yn eu meysydd. Mae eu gwybodaeth uniongyrchol am y byd yn cael ei throsglwyddo i'n cyrsiau israddedig trwy amrywiaeth o themâu arbenigol.

Rydym yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu i chi, boed hynny yn y ddarlithfa, mewn dosbarth seminar neu sesiwn diwtora. Cewch eich asesu mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys arholiadau, adroddiadau, cyflwyniadau, fideos a thraethodau, a'r cyfan wedi'i ddylunio i feithrin eich sgiliau personol a throsglwyddadwy, yn ogystal â'ch sgiliau sy'n benodol i'r pwnc. Rydym yn y 10 uchaf yn y DU am foddhad cyffredinol myfyrwyr ym mhwnc Cymdeithaseg (Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Myfyrwyr 2022). Yn ogystal â myfyrwyr bodlon iawn, mae gennym hanes cryf o feithrin graddedigion cyflogadwy iawn.

Ceir rhagor o wybodaeth yn y llyfryn hwn am ein cyrsiau ac am y cyfleoedd eraill a ddarparwn. Beth am ymuno â ni ar Ddiwrnod Agored / Diwrnod Agored Ar-lein neu Ddiwrnod Ymweld i Ymgeiswyr i weld drosoch eich hun beth sy'n gwneud Aberystwyth yn lle mor anhygoel i astudio ynddo.

**Dr Bethany Simmonds**
**Arweinydd y Rhaglen Cymdeithaseg**



# Ein cyrsiau

## Anrhydedd sengl


| | |
|---|---|
| Cymdeithaseg | t.3 |
| Cymdeithaseg a Gwleidyddiaeth | t.4 |
| Seicoleg a Chymdeithaseg | t.6 |
| Troseddeg a Chymdeithaseg | t.7 |




# Cymdeithaseg

36% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | L300 | 3 blynedd

Bydd y radd BA mewn Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn eich hyfforddi i ddatblygu ymwybyddiaeth feirniadol o'r byd cymdeithasol, a byddwch hefyd yn dysgu sut i ymwneud â'r byd hwnnw.

Trwy astudio'r cwrs hwn, byddwch yn datblygu gwybodaeth drwyadl am y dulliau cysyniadol a damcaniaethol y mae cymdeithasegwyr wedi'u defnyddio i astudio'r byd o'n cwmpas. Byddwch hefyd yn datblygu eich gallu i ddadansoddi ffenomenau cymdeithasol trwy gyfrwng hyfforddiant mewn casglu, dadansoddi a chyflwyno data cymdeithasegol.

Byddwch yn elwa o:

- brofi gwerth ac arwyddocâd hyfforddiant ar ddulliau ymchwil ym maes Cymdeithaseg, gyda goruchwyliaeth o ddulliau ymchwil ymarferol ac wythnos ddwys o gasglu data dan oruchwyliaeth ym mlwyddyn 2
- dysgu sut i ddefnyddio'r cysyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â Chymdeithaseg mewn sefyllfaoedd go iawn, a datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd
- dysgu o'n cryfderau ymchwil i sicrhau eich bod yn elwa o ddirnadaethau damcaniaethol ac empirig arloesol a ddadansoddir o safbwynt cymdeithasegol.

**Cyflogadwyedd**

Mae ein gradd mewn Cymdeithaseg yn sylfaen dda ar gyfer ystod eang o yrfaoedd gan gynnwys y cyfryngau, gwaith cymdeithasol, datblygu rhyngwladol, cyswllt cymunedol, a'r gwasanaeth sifil ymhlith llawer mwy. Y dyddiau hyn, mae cyflogwyr yn chwilio am raddedigion a chanddynt sgiliau amrywiol, yn cynnwys y gallu i feddwl yn ddadansoddol ac yn ochrol. Bydd y radd hon yn rhoi ichi amrywiaeth o sgiliau hyblyg, a dyna pam mae graddedigion Cymdeithaseg yn apelio at gyflogwyr yn genedlaethol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Thinking Sociologically
- Key Concepts in Sociology
- Introducing Sociological Research
- Place and Identity

**Yr ail flwyddyn:**

- Genders and Sexualities
- Sociological Theory
- Placing Culture
- Sociological Research in the 'Field'

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Estynedig Cymdeithaseg
- Everyday Social Worlds

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Gender and the Media
- Astudio Cymru Gyfoes
- Newid a gwrthdaro: Cynhyrchu gofodau gwledig a threfol
- Lleoli Gwleidyddiaeth

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26

**Pwyslais marcio:** 80% gwaith cwrs, 20% arholiadau

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes

**Ar gael hefyd:**

- **L302** Blwyddyn integredig yn astudio dramor
- **L303** Blwyddyn integredig mewn diwydiant
- **L30F** Blwyddyn sylfaen integredig

# Cymdeithaseg a Gwleidyddiaeth

48% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BSc (Anrh) | LL32 | 3 blynedd

Bydd ein gradd Cymdeithaseg a Gwleidyddiaeth yn eich galluogi i ddatblygu ymwybyddiaeth feirniadol o'r byd o'ch cwmpas trwy astudio'r dirwedd gymdeithasol yn ogystal â'r dirwedd wleidyddol. Byddwch yn dysgu am y dulliau cysyniadol a damcaniaethol a ddefnyddir gan gymdeithasegwyr i astudio'r byd. Ar yr un pryd, bydd eich archwiliad o'r byd gwleidyddol yn rhoi gwybodaeth ichi am ddylanwadau gwleidyddol ar normau a phrosesau cymdeithasol.

Ar y cwrs hwn byddwch yn dysgu sut i edrych yn feirniadol ar y byd, trwy ddadansoddi ffenomenau cymdeithasol a thrwy ddysgu sut i gasglu, dehongli a chyflwyno data cymdeithasegol. Byddwch hefyd yn darganfod sut mae gan wleidyddiaeth y gallu i newid bywydau, yn dysgu am y syniadau mawr sy'n llywio ein bydoedd cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol, a sut mae'r syniadau hyn yn dod yn bolisïau.

Byddwch yn elwa o:

- brofi gwerth ac arwyddocâd hyfforddiant dulliau ymchwil mewn Cymdeithaseg, gyda goruchwyliaeth ymarferol ar ddulliau ymchwil ac wythnos casglu data dwys dan oruchwyliaeth ym mlwyddyn 2
- dysgu sut i ddefnyddio'r cysyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â Chymdeithaseg mewn sefyllfaoedd go iawn, a datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd
- ymwneud yn feirniadol â dadleuon am faterion allweddol mewn gwleidyddiaeth, fel llywodraeth dda, natur y wladwriaeth, cyfiawnder a hawliau, a threfn y gyfraith
- myfyrio ar sut mae gwladwriaethau a chymdeithasau yn mynd i'r afael â phroblemau gwleidyddol megis dosbarthu adnoddau cyfyngedig, y cydbwysedd rhwng trefn a chyfiawnder, rhyddid a diogelwch, hawliau a chyfleoedd, a rhwng pwerau ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**Cyflogadwyedd**

Mae graddedigion y radd Cymdeithaseg a Gwleidyddiaeth mewn sefyllfa dda i ymgymryd â rolau mewn amrywiol feysydd, megis y sector datblygu, gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol, y gwasanaeth sifil, ymchwil gymdeithasol y Llywodraeth, gwaith cymdeithasol a pholisi cymdeithasol (gan gynnwys tai cyhoeddus, gweinyddiaeth llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol), rolau yn y trydydd sector megis cyrff anllywodraethol ac elusennau, gwaith gyda sefydliadau rhyngwladol, cysylltiadau cyhoeddus a newyddiaduraeth, addysgu a rheoli.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Y Tu Ôl i'r Penawdau
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol 1: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Key Concepts in Sociology
- Introducing Sociological Research
- Gwleidyddiaeth yn yr Unfed Ganrif ar Hugain
- Thinking Sociologically

**Yr ail flwyddyn:**

- Sociological Theory
- Pobl a Grym: Deall Gwleidyddiaeth Gymharol Heddiw
- Sociological Research in the 'Field'
- Genders and Sexualities

**Y flwyddyn olaf:**

- Everyday Social Worlds.
- Traethawd Estynedig Cymdeithaseg.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Datganoli a Chymru

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26

**Pwyslais marcio:** 40% gwaith cwrs, 60% arholiadau

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes



# Seicoleg a Chymdeithaseg

21% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | LC38 | 3 blynedd

Bydd y radd mewn Seicoleg a Chymdeithaseg yn eich galluogi i gysylltu â damcaniaeth ac ymchwil seicolegol ac i archwilio sut y cymhwysir seicoleg i faterion personol a chymdeithasol yn y byd go-iawn. Bydd y cwrs hefyd yn gyfle ichi drafod agweddau personol a chymdeithasol ar brofiad dynol o wahanol safbwyntiau.

Ar y radd hon byddwch yn dysgu sut i bwyso a mesur syniadau, cysyniadau ac ymagweddau yn feirniadol ar draws yr holl bwnc ac o fewn elfennau penodol o Seicoleg a Chymdeithaseg. Bydd y cwrs hefyd yn canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng ymddygiad pobl a'r systemau cymdeithasol ehangach (yn cynnwys cymunedau, dinasoedd, a chenhedloedd) yr ydym yn byw ynddyn nhw. Byddwch yn dysgu sut i ymgymryd ag ymchwil annibynnol, gan gymhwyso ystod o sgiliau yn ymwneud â chasglu, dadansoddi a chyflwyno data. Byddwch hefyd yn dysgu sut i ddefnyddio'r cysyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â Chymdeithaseg mewn sefyllfaoedd go iawn, a datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd.

Byddwch yn elwa o:

- elwa ar amrywiaeth eang o arbenigedd ymhlith ein staff sy'n weithredol o ran ymchwil
- defnyddio cyfarpar tracio llygaid, electroenceffalogram (EEG), ac offer mesur ffisiolegol ac ymddygiadol
- amrywiaeth o ddosbarthiadau ymarferol a goruchwyliaeth wrth gasglu data yn y ddwy ddisgyblaeth
- dysgu yn sgil prosiectau ymchwil byw fydd yn eich galluogi i feithrin dealltwriaeth o'r byd cymdeithasol o safbwynt damcaniaethol ac empirig.

**Cyflogadwyedd**
Bydd astudio Seicoleg a Chymdeithaseg yn rhoi ichi sylfaen gadarn i allu ystyried ystod eang o yrfaoedd mewn meysydd yn cynnwys y cyfryngau, gwaith cymdeithasol, datblygu rhyngwladol, ymgysylltu â chymdeithas a'r gwasanaeth sifil, ymhlith eraill.

Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i weithio ym maes yr heddlu, iechyd a gofal cymdeithasol, polisi cymdeithasol (yn cynnwys tai cyhoeddus, gwaith cymdeithasol, gweinyddu llywodraeth leol, a'r sector gwirfoddol), rheolaeth, newyddiaduraeth, cysylltiadau cyhoeddus, dysgu ac ymchwil.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Brain, Behaviour and Cognition
- Introduction to Core Topics in Social and Individual Behaviour
- Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Key Concepts in Sociology
- Place and Identity
- Thinking Sociologically

**Yr ail flwyddyn:**
- Cognitive Psychology
- Sociological Theory
- Qualitative Research Methods
- Dulliau Ymchwil Meintiol
- Social Psychology
- Genders and Sexualities

**Y flwyddyn olaf:**
- Behavioural Neuroscience
- Developmental Psychology
- Prosiect ymchwil Seicoleg
- Everyday Social Worlds

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26

**Pwyslais marcio:** 40% gwaith cwrs, 60% arholiadau

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes



# Troseddeg a Chymdeithaseg

56% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | ML93 | 3 blynedd

Bydd y radd BSc mewn Troseddeg a Chymdeithaseg yn eich galluogi i ddysgu am y cysyniadau sy'n allweddol i ddeall sut mae trosedd a gwyredd yn cael eu hystyried gan gymdeithas. Cewch gyfle i archwilio natur ryngddisgyblaethol trosedd, troseddiaeth a chymdeithas yn ogystal â'r berthynas rhwng cymdeithas a throsedd.

Bydd y cynllun gradd hwn yn rhoi dealltwriaeth fanwl ichi o'r gymdeithas a throseddu, a bydd yn eich cyflwyno i safbwyntiau newydd ar anghydraddoldeb cymdeithasol a newid cymdeithasol sy'n digwydd yn lleol ac yn rhyngwladol.

Trwy roi golwg fanwl ar droseddeg o safbwynt cymdeithasegol, bydd ein gradd yn rhoi ichi'r wybodaeth ddatblygedig a'r sgiliau dadansoddi sydd eu hangen er mwyn gweithio yn y sectorau cyhoeddus a chymdeithasol, yn ogystal â'r system cyfiawnder troseddol. Mae hefyd yn fan cychwyn gwych ar gyfer astudiaethau pellach.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan droseddegwyr sy'n weithgar ym maes ymchwil
- y cyfle i wneud profiad gwaith ym maes cyfiawnder troseddol
- elwa o'n cysylltiadau cryf ag asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol
- ymgymryd ag ymchwil annibynnol ym maes troseddeg dan oruchwyliaeth.

**Cyflogadwyedd**
Mae Troseddeg a Chymdeithaseg yn cynnig sail academaidd ragorol ar gyfer gyrfaoedd yn y sector cyfiawnder troseddol, yn cynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Carchar EF, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a chyfiawnder ieuenctid. Gall cyflawni'r radd hon hefyd gynnig cyfleoedd i weithio ym maes dadansoddi trosedd neu gudd-wybodaeth, gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Rheoli ac Atal Troseddu
- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Troseddegwyr
- Cyflwyniad i Droseddeg
- Key Concepts in Sociology
- Place and Identity
- Thinking Sociologically

**Yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf:**
- Sociological Theory
- Genders and Sexualities
- Traethawd Estynedig Empeiraidd neu Draethawd Estynedig y Gyfraith a Throseddeg
- Troseddeg Feirniadol a Radical

Mae'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- Placing Culture
- Lleoli Gwleidyddiaeth
- Geographical Information Systems
- Psychopathology
- Community Justice
- Everyday Social Worlds
- Memory Cultures: Heritage, Identity and Power

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26

**Pwyslais marcio:** 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes



# Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Yma ym Mhrifysgol Aberystwyth rydym yn cynnig llawer o gyfleoedd i astudio trwy'r Gymraeg, ac mae ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhlith yr ehangaf yng Nghymru.

Mae'r Adran Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn rhoi'r cyfle i bob myfyriwr astudio rhan o'u cwrs yn Gymraeg trwy gynnig nifer o fodiwlau y gellir eu hastudio'n rhannol neu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bosib i chi astudio modiwlau yn Gymraeg hyd yn oed os ydych yn astudio yn Saesneg yn bennaf, a gallwch ddewis cyflwyno'ch gwaith cwrs yn Gymraeg hefyd.

Rydym yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n rhugl yn ogystal ag i'r rhai sy'n llai hyderus neu'n ddysgwyr. Mae'r modiwlau israddedig yn amrywio o gyrsiau sy'n cynnig ambell fodiwl trwy gyfrwng y Gymraeg, i eraill lle mae modd astudio'r cwrs cyfan yn Gymraeg.

Addewidion Aber yw ymrwymiad Prifysgol Aberystwyth i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol. Dyma'r cynllun mwyaf cynhwysfawr o'i fath gan unrhyw brifysgol yng Nghymru.

Mae'r addewidion yn nodi'r hyn sy'n arbennig am Aberystwyth a sut mae'r Brifysgol yn cynnig profiad Cymraeg cyflawn, gan gynnwys:

- cyfleoedd hyblyg i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob adran
- gwarant o Diwtor Personol sy'n siarad Cymraeg
- profiad gwaith dwyieithog
- gwarant o lety cyfrwng Cymraeg
- cefnogaeth i ddysgu neu wella'ch Cymraeg
- arian yn eich poced am ddilyn rhwng 5 a 40 credyd yn Gymraeg
- aelodaeth o UMCA am ddim
- gofod ar gyfer cymdeithasau Cymraeg.



# Cyflogadwyedd

Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein holl fyfyrwyr yn gwireddu eu huchelgais. Dyna pam rydym yn gwneud pob ymdrech i'ch helpu, drwy gydol eich amser yn y brifysgol, i feithrin y sgiliau y bydd eu hangen arnoch chi i lwyddo yn y gweithle. Bydd ein cyrsiau'n rhoi cyfle i chi i ddatblygu'ch meddwl beirniadol, eich gwybodaeth a'r sgiliau ymchwil a fydd yn ddefnyddiol mewn gyrfa mewn llywodraeth, sefydliadau'r trydydd sector a pholisi cymdeithasol.

Ar ôl graddio bydd gennych y sgiliau, gyda'r ehangder a'r hyblygrwydd angenrheidiol, i allu ymdrin â rhai o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r gymdeithas gyfoes, gan eich rhoi mewn sefyllfa dda i allu ystyried ystod eang o yrfaoedd ar ôl graddio.

Un nodwedd unigryw o raglen Cymdeithaseg Aberystwyth yw'r pwyslais a roddir ar ddarparu goruchwyliaeth ymarferol dros ddulliau ymchwil. Er enghraifft, yn yr ail flwyddyn, byddwch yn cael wythnos o oruchwyliaeth academaidd ddwys wrth i chi gasglu data mewn grwpiau. Mae darparu'r lefel hon o gymorth wrth gasglu data hefyd yn gwella'ch sgiliau ymchwil trosglwyddadwy ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol.

Bydd ein cynlluniau gradd sy'n cynnwys blwyddyn o waith mewn diwydiant yn rhoi cyfle i chi gael profiad gwerthfawr o'r gweithle yn ystod cyfnod estynedig o waith cyflogedig, gan hefyd agor drysau i well dewisiadau gyrfa i chi ar ôl graddio. Mae'r flwyddyn mewn diwydiant yn digwydd yn ystod eich trydedd flwyddyn. Ar ôl hynny byddwch yn dychwelyd i Aberystwyth i gwblhau eich gradd yn eich pedwaredd flwyddyn.



# Ymchwil

Yn ystod eich cyfnod yn Aberystwyth byddwch yn cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy’n arwain y byd yn eu maes. Mae ein staff yn arbenigwyr mewn Cymdeithaseg sydd - o amrywiaeth o safbwyntiau cymdeithasol - yn craffu ar y mannau lle y mae oedran, anabledd, dosbarth, rhywedd/rhywioldeb ac ethnigrwydd yn dod ynghyd, o safbwynt materion cyfoes allweddol ynghylch ansadrwydd (e.e. yr argyfwng gofal iechyd, mewnfudo, y wladwriaeth les neu argyfwng yr hinsawdd) lle y gellir rhoi damcaniaeth gymdeithasegol ar waith mewn modd a fydd yn cael arwyddocâd i’r byd go iawn.



Mae Dr Bethany Simmonds yn Uwch Ddarlithydd ac yn Arweinydd y Rhaglen Cymdeithaseg. Mae Bethany yn arbenigo ar ymchwil i gymdeithaseg heneiddio ac iechyd. Yn ddiweddar, cyhoeddodd lyfr o'r enw Ageing and the Crisis in Health and Social Care (2021) yng nghyfres *Ageing in a Global Context* a gyhoeddir gan Wasg Polisi Prifysgol Bryste. Mae'n edrych ar effeithiau globaleiddio, neoryddfrydiaeth, polisïau llymder, ac gwahaniaethu ar sail oedran ar systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU, Sweden a'r Almaen. Daeth i'r casgliad bod y pandemig wedi amlygu rhai systemau ansad a rhai nad ydynt yn darparu gwasanaeth urddasol i bobl hŷn. Mae'r llyfr yn trafod agweddau ar yr ymchwil gymhwysol i iechyd a wnaeth hi pan oedd yn Gydymaith Ymchwil yn Adran Meddygaeth Gymdeithasol a Chymunedol Prifysgol Bryste (ac adrannau eraill yno). Ar hyn o bryd mae'n gweithio ymhellach ar rai o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn ei llyfr, sy’n cynnwys symud yn nes at foeseg ffeministaidd ym maes gofal, yn hytrach na phenderfyniadau gwladwriaethol meirw-wleidyddol am heneiddio/marwolaeth mewn systemau iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal ag archwilio sut y defnyddir cysyniad 'cyfalafiaeth ansadrwydd' i grynhoi anfodlonrwydd rhwng y cenedlaethau o gwmpas cyfiawnder hinsawdd.

Mae Dr Emma Sheppard yn Ddarlithydd mewn Cymdeithaseg. Mae arbenigedd ymchwil Emma yn canolbwyntio ar astudiaethau anabledd beirniadol, yn enwedig profiad byw poen a blinder, a’r ddealltwriaeth gymdeithasol-ddiwylliannol amdanynt. Cyhoeddodd ei llyfr cyntaf yn ddiweddar, *Chronic Pain, BDSM and Crip Time*, yn rhan o gyfres *Interdisciplinary Disability Studies* Routledge. Yn y llyfr hwnnw, mae'n edrych ar sut mae meddwl am boen cronig a blinder o safbwynt 'amser crip' yn datgelu rhagdybiaethau normadol ac ablaethol sy'n sail i sut y deallir poen a syniadau am iachâd a gwellhad. Mae ei hymchwil ehangach yn cwmpasu dyfodoloedd anabledd, ac amser a llawenydd.

Mae Dr Yvonne Ehrstein hefyd yn Ddarlithydd mewn Cymdeithaseg. Mae ymchwil Yvonne yn arbenigo ar gymdeithasegau rhywedd, gwaith a'r digidol. A hithau’n gymdeithasegydd ffeministaidd, mae ei gwaith yn cael ei yrru gan gwestiynau am anghydraddoldebau a chysylltiadau grym. Yn ei gwaith ymchwil presennol, mae'n edrych ar ystyr 'y tro digidol', yn enwedig i famau a phobl â chyfrifoldebau gofalu. Cyhoeddwyd ei gwaith ar rywedd, atgenhedlu cymdeithasol a rhianta digidol yn y cyfnodolion *Feminism & Psychology* ac *European Journal of Cultural Studies*, ac yn y llyfr golygedig *Neoliberalism in Context*. Mae diddordebau ymchwil ehangach Yvonne yn canolbwyntio ar ddamcaniaethau cymdeithasol, diwylliannol ac (ôl-)ffeministaidd, neoryddfrydeiddio diwylliant, cysyniadu gofal a’r chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ar draws y parthau ar-lein ac all-lein, yn ogystal â dulliau ymchwil digidol a chymdeithasol arloesol.



# Cyfleoedd byd-eang

**Mae tîm Cyfleoedd Byd-eang Aberystwyth yn cynnig ystod gyffrous o opsiynau i chi fynd dramor yn rhan o'ch gradd: o gyrsiau byr a chyfleoedd gwirfoddoli yn yr haf, i semester llawn neu flwyddyn dramor yn astudio Cymdeithaseg mewn prifysgol bartneriaethol. Mae ein partneriaid, sydd wedi'u dewis oherwydd eu cyrsiau cyffrous mewn Cymdeithaseg, yn cynnwys sefydliadau yn Norwy, Japan, Denmarc, Canada, Awstria, Sbaen, a Mecsico Newydd.**

Os byddwch yn dewis astudio cwrs gyda blwyddyn integredig dramor, mae'r Brifysgol yn eich galluogi i astudio am un neu ddau semester yn ystod eich trydedd flwyddyn; byddwch yn dychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn olaf ac i raddio.

Dengys adroddiadau fod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn fwy deniadol yn y farchnad swyddi ac yn ennill mwy o arian na'u cyfoedion. Beth felly am fanteisio ar gyfle anhygoel a gwella eich sgiliau hollbwysig ar yr un pryd trwy ddewis astudio dramor?



Hong Kong


Canada


Awstralia


Washington, DC


Norway


# Y broses ymgeisio

## 1 Gwnewch gais trwy UCAS.com

Gwiriwch y dyddiad cau UCAS ar UCAS.com. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40
**COFIWCH:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y Brifysgol yn ystyried eich cynnig

**COFIWCH:** Defnyddiwch Hwb UCAS i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn saith diwrnod.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar Hwb UCAS

Bydd penderfyniad y Brifysgol yn cael ei ddangos ar Hwb UCAS - os ydych wedi derbyn cynnig, fe fyddwch yn gallu gweld pa raddau sydd angen arnoch i sicrhau eich lle.

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau Cadarn ac Wrth Gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis Cadarn/Wrth Gefn gallwch wneud cais am lety.

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd Hwb UCAS yn dangos os yw eich lle wedi'i gadarnhau gyda'ch Dewis Cadarn. Os nad ydych wedi cael y graddau yr oeddech yn gobeithio, gallwch ystyried gwneud cais drwy Glirio.

## 7 Dechreuwch bacio!

Cofiwch gadw llygad ar eich e-byst am wybodaeth am eich diwrnod cyntaf a'r gweithgareddau croeso.









Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear,
Prifysgol Aberystwyth,
Adeilad Llandinam,
Campws Penglais,
Aberystwyth, SY23 3DB

+44 (0)1970 62 2606

dgostaff@aber.ac.uk

/AU Geography & Earth Sciences

@AU_DGES



Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth 2024.

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%